

Tŷ Augusta

Gwasanaeth Gofal Seibiant i Oedolion ag Anableddau Dysgu



Gwasanaethau

Ein nod yw darparu cyfleoedd newydd a phrofiadau gwerthfawr i'n gwsteion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Ar yr un pryd gall gofalwyr gael seibiant yn ogystal!

- Mae arosiadau byr ar gael i hyd at bum oedolyn ar unrhyw un adeg.
- Rydym yn defnyddio system fwcio i baru anghenion unigolion gyda'r adnoddau staffio.
- Bydd nifer y cyfleoedd ar gyfer arosiadau yn dibynnu ar asesiad anghenion yr unigolyn a'r gofalwyr.
- Rydym wedi cofrestru i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn Gofal Iechyd Parhaus.
- Rydym yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth ynghyd â gwasanaethau trosglwyddo.

Gallai'r rhain fod yn rhai rhesymau dros ddefnyddio'r gwasanaeth:

- Cael seibiant/gwyliau.
- Cael profiad o fyw oddi cartref.
- Datblygu sgiliau penodol e.e. coginio, pendantrwydd, cymdeithasu (neu'r tair sgil).
- Darparu seibiant ar gyfer gofalwyr.



Costau

Cyfrifir costau yn seiliedig ar gyfanswm cost gweithredu'r cyfleuster. Bydd defnyddwyr gwasanaeth unigol yn derbyn asesiad o'u hamgylchiadau ariannol i benderfynu faint fyddant yn ei gyfrannu tuag at y gost wirioneddol.

Darperir prydau dyddiol yn Nhy Augusta. Gall gwsteion brynu prydau/byrbrydau ychwanegol pan fyddant allan yn y gymuned yn ôl eu dewis.



Cyngor Bwrdeisdref Sirol

Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent

County Borough Council

Cyfleusterau

- Mae'r adeilad cyfan yn hygyrch i gadeiriau olwyn ac mae wedi'i ddodrefnu i gynnal pob lefel o anabledd.
- 1 ardal lolfa fawr.
- 1 lolfa weithgareddau.
- Ystafelloedd gwely ar y llawr isaf.
- 3 ystafell wely, en-suite gyda thaclau codi.
- Mae i bob ystafell wely ei thoiled ei hun.
- Mae gan bob ystafell wely ystafell ymolchi neu ystafell gawod gydffiniol.
- Mae gan bob ystafell wely ddewis o deledu a pheiriant DVD.
- Cegin wedi'i ddodrefnu'n llawn.
- Ystafell fwyta fawr.
- Cyfleuster golchi ar wahân.
- Tir ac ardal batio eang.
- Gofod parcio ar gyfer 10 cerbyd.
- Ardaloedd dymunol i gerdded, o fewn pellter byr i Barc yr Wyl.
- Agos at orsaf reilffordd gyda chysylltiad i Gaerdydd.
- Bws mini yn darparu mynediad i gyfleusterau siopa, tafarndai, bwytai, ayb.
- Swyddfa/ardal dderbynfa ar wahân.



Prydau

Fe'ch cymhellir i siopa a helpu gyda pharatoi prydau sydd at eich dant a'ch chwaeth personol chi.

Staff

Mae tîm y dderbynfa yn cynnwys staff profiadol a gofalgar a'u nod yw creu awyrgylch ymlaciol, cartrefol a chyfeillgar.

- Ar gyfer pob gwestai neilltuir 'gweithiwr-cyswllt/gweithwraig gyswllt' fydd yn sicrhau y cyfarfyddir ag anghenion unigol a gallent ymweld â defnyddwyr y gwasanaeth yn eu cartref.
- Cyflogir staff yn Nhŷ Augusta i gwrdd ag anghenion gwesteion.
- Mae un neu fwy o aelodau staff ar ddyletswydd effro yn y nos.
- Mae staff yn derbyn cyfleoedd hyfforddi rheolaidd, e.e. cynllun QCF.
- Mae'r staff yn derbyn arolygaeth un i un yn rheolaidd ac arolygaeth fel tîm.

Gweithgareddau

Ein nod yw cynorthwyo unigolion ym mha weithgareddau bynnag y dymunant gymryd rhan ynddynt. Rydym hefyd yn annog gwesteion i roi cynnig ar weithgareddau newydd er mwyn gallu gwneud dewisiadau ystyrion yn y dyfodol. Mae gweithgareddau nodweddiadol yn cynnwys:

- Sinema, theatr.
- Tafarndai, bwytai, clybiau.
- Siopa, gwibdeithiau dydd.
- Dawnsio, gemau bwrdd, gemau cardiau, tenis bwrdd, cerddoriaeth, pêl-droed bwrdd, consol Wii.
- Coginio.
- Picnics.
- iPad a mynediad wi-fi.
- Edrych ar ffilmiau ar y peiriant cyfryngau.

Cronfa fwyniannau

Mae cronfa fwyniannau yn bodoli a chynhelir gweithgareddau'n rheolaidd i godi arian.

Gofal meddygol

Gallwch gofrestru fel preswilydd dros dro yng Nglynebwy neu gadw eich meddyg teulu lleol - yn dibynnu ar ble'r ydych yn byw a derbyn ymweliadau gan nyrs gymunedol/ardal.

Addoliad crefyddol

Galluogir gwsteion i fynychu lle o addoliad yn ystod eu harhosiad. Darperir ar gyfer anghenion crefyddol eraill o fewn yr adnoddau sydd ar gael.


Pwrpas

Ein pwrpas yw darparu gofal tymor-byr o ansawdd uchel ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu tra cynorthwywn a chynhaliwn ar yr un pryd eu hannibyniaeth a'u dewis.

Lleoliad

Cyfleuster gofal seibiant dan nawdd y Gwasanaethau Cymdeithasol yw Tŷ Augusta, wedi'i adeiladu i'r pwrpas er mwyn cynnig gofal tymor byr i oedolion gydag anableddau dysgu.

Lleolir y ty ar safle Gwyl Ardd 1992, sydd oddeutu 2 filltir o ganol tref Glyn Ebwy. Gellir mynd ato o'r M4 neu'r A465 drwy ddilyn yr arwyddion ar gyfer "Parc yr Wyl".



Sut i gysylltu â ni:

C2BG
Swyddfeydd Bwrdeisiol
Y Ganolfan Ddinesig
Glyn Ebwy
Gwent
NP23 6XB

Ffôn: (01495) 315700

Tŷ Augusta
Parc Augusta
Victoria
Glyn Ebwy
NP23 8DN

Ffôn: (01495) 305805



Cysylltwch â'r Swyddog Gwybodaeth ar
(01495) 354630 os gwelwch yn dda os hoffech
dderbyn y ffurflen hon yn electronig.

Taflen AS018-4 Ebrill 2016
www.blaenau-gwent.gov.uk